

ADNABOD EIN GILYDD


Ar gyfer y gyntaf mewn cyfres o sgrysiâu ag aelodau o Gymdeithas Bob Owen bu Huw Ceiriog Jones yn holi tipyn ar Dr Brynley F. Roberts, Cadeirydd y Gymdeithas, rai dyddiau'n unig ar ôl iddo ymddeol o swydd Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

H.C.Ĵ.: Deallaf mai argraffydd oedd eich tad. A oedd gennyh chi ddi-ddordeb yn y grefft?

B.F.R.: Bwriodd fy nhad ei brentisiaeth fel argraffydd yng Nghaernarfon ddechrau'r ganrif hon. Yr oedd Caernarfon yr adeg honno yn ganolfan brysyr fyrlymus cyhoeddi ac argraffu, ac er mai prentis bach oedd ef, fe glywai straeon am Eifionydd — golygydd *Y Geninen* — am swyddfa'r *Herald*, a Humphreys, ac ar adegau câi gyfle i weld yr enwogion (gan gynnwys T. Gwynn Jones) wrth wneud negeseuon. Yn swyddfa Gwenlyn Evans y gweithiai fy nhad, ac yr oedd honno yng nghanol y bwrlwm. Soniai am y bywyd hwnnw gartref — ac yr oedd Eifionydd yn gymaint o *eccentric* fel yr oedd yna stôr ddi-hysbydd o chwedlau'n cylchredeg amdano — er mai'n ddiweddarach y deuthum i'w gwerthfawrogi: a dyna pryd y sylweddolais gymaint y gallaswn fod wedi holi fy nhad amdano.

Byddem yn gweld gwaith fy nhad, neu o leaf waith y swyddfa, yn rheolaidd, yn rhaglenni cymanfa ganu, adroddiadau capeli, tocynnau rhaglenni, llyfrynau, dramâu, ac felly yr oedd yna ymwybyddiaeth o beth oedd argraffu. Yn ddiweddarach un o'm 'dyletswyddau' gartref fyddai darllen profleuni a bu hynny'n gryn ddisgyblaeth. Dysgais sut i farcio proflen, beth oedd yr arwyddion, a sut i ddarllen heb ymgolli yn y cynnwys ond i sylwi ar sut y gosodid tudalen. Egluraf fy nhad natur y gwallau, nid y 'typo's' ond agweddau ar beth a elwir yn awr yn ddylunio a theipograffeg. Ystyriai'r hen argraffwyr mai rhan o'u crefft hwy fyddai dewis teip, dylunio tudalen ac wyneb-ddalen, a gofalu am berthynas y naill dudalen a'r llall. Cysmerai ef ddiddordeb yn hyn a dysgodd fi sut i 'ddarllen' llyfr (er na fyddwn yn honni fy mod ag arbenigedd!), a sut i drin a thrafod llyfr yn gorfforol. Yn naturiol byddwn yn ymweld â'r swyddfa a thros y blynyddoedd cael cyfle i ddeall prosesau argraffu, oherwydd yr oeddid yn parhau i gysodi â llaw yn ogystal â 'mono'.

Felly, i ateb eich cwestiwn, oedd, yr oedd gennyf ddiddordeb mawr yn y grefft a'r gelfyddyd, rhyw radd o



Dr. Brynley F. Roberts

ddealltwriaeth (ac o gydnabyddiaeth ag aroglau swyddfa argraffu ac o deimlo gwasgfa roler gwasg broflenni ar fy mysedd), ond dim profiad ymarferol. Gweithred o pietas yn ddiweddarach oedd ceisio casglu cyhoeddiadau'r wasg honno. Erbyn hyn wrth gwrs mae cysodi ac argraffu'n grefftâu gwahanol iawn.

H.C.Ĵ.: Pa ddylanwad gafodd eich cefndir arnoch?

B.F.R.: Mae fy ateb i'ch cwestiwn cyntaf yn rhan o fy ateb i'r cwestiwn hwn hefyd. Ar yr un pryd hoffwn i ddim ichwi gredu mai argraffu oedd unig, na phrif, sgwrs yr aelwyd gartref. Yr oedd y cefndir yn cynnwys y gymdogaeth, ysgol, capel, gwyliau, teulu, etc. Ac y mae dylanwad cefndir yn rhywbeth sy'n parhau ar hyd holl fywyd person. Am a wn i, mae dylanwadau'n dal i effeithio arnaf.

H.C.Ĵ.: Mewn swyddi academaidd, mae'n siwr fod llyfrau a llyfrgelloedd wedi bod yn rhan bwysig o'ch bywyd?

B.F.R.: Mae llyfrau, llyfrgelloedd a siopau llyfrau wedi bod yn rhan bwysig o'm bywyd, yn swyddogol (fel petai) ac fel difyrwch. Dechreuais hel

llyfrau yn ddisgybl ysgol (fel pioden), ac yna pan ddeuthum i Aberystwyth yr oedd adran ail-law Galloways yn atyniad ac yn demtasiwn. Yr oedd cael crwydro llyfrgell megis llyfrgell y coleg yn agoriad llygad, yn arbennig i rywun nad oedd wedi cael profiad o lyfrgell 'open access' cyn hynny, hyd yn oed mewn llyfrgell gyhoeddus. Daeth chwilio am lyfr ar bwnc yn beth naturiol i'w wneud: a chan nad oedd yn y dyddiau hynny gyfarwyddyd i'w gael ar sut i ddefnyddio llyfrgell y coleg, trwy grwydro y deuthum i sylweddoli sut yr oedd llyfrau a chylchgronau'n cael eu dosbarthu, a dechrau deall arwyddocâd y casgliad cyfrin o rifau a llythrennau a oedd ar feingefn pob un, a dysgu hefyd fod cynorthwyon ar gael megis llyfrgyddiaethau, rhestri silffoedd, etc.

Yr ymddifyrru yma mewn llyfrau, ac yna yn nhrefn llyfrgelloedd, a wnaeth imi roi pwys ar geisio dysgu myfyrwyr sut i ddefnyddio llyfrgelloedd yn y ffordd fwyaf effeithlon.

H.C.Ĵ.: Ai cariad at lyfrau aeth â chi i swydd Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru?

B.F.R.: Ie i raddau. Hynny yw,

yr oeddwn yn hoff o lyfrau fel gwrthrychau ac fel mynegiant o ddiwylliant ac ysgolheictod, yn hoffi llyfrgelloedd fel lleoedd dymunol i fod ynddynt. Ond nid oeddwn yn rhamantu, ac fel darlithydd ac athro coleg yr oeddwn yn argyhoeddedig fod llyfrgell dda yn gyfarpar holl bwysig yn ffyniant coleg ac ysgol, lawn cyn bwysiced â labordy ac offer gwyddonol drudfawr. Yr oedd angen hyfforddi myfyrwyr (a rhai staff) sut i ddefnyddio llyfrgell, ac yr oedd rhaid amddiffyn buddiannau'r llyfrgelloedd. 'Rwy'n credu mai'r profiad a gefais fel Cadeirydd Pwyllgor Llyfrgell Coleg Abertawe, ac fel aelod o un o bwyllgorau'r Llyfrgell Brydeinig, a wnaeth cynnig am swydd Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ddeniadol — ar wahân, wrth gwrs, i'r fraint o gael ymwneud â sefydliad cenedlaethol. Nid oeddwn yn ei gweld yn swydd yn ymwneud yn uniongyrchol â llyfrau: gwyddwn mai swydd weinyddol-reoli fyddai — ac felly y bu! Ond ceisiais gofio bob amser mai pwrpas y rheoli a'r gweinyddu oedd gwasanaethu darllenwyr.

H.C.Ĵ.: Yn y Llyfrgell Genedlaethol ac yn sgîl eich cysylltiad agos â Gwasg Pantycelyn buoch yn ymwneud â chyhoeddi. A oedd hynny'n agos at eich calon?

B.F.R.: Nid oedd gennyf lawer o brofiad yn mynd cyhoeddi, sy'n fynd gwahanol iawn i fynd cynhyrchu llyfrau. Bûm yn Gadeirydd Adran Gyhoeddi'r Eglwys Bresbyteriaidd ers tro (Gwasg Pantycelyn) ond dysgais fwy — er na wn lawer — am realiti cyhoeddi trwy fy ymwneud â'r Cyngor Llyfrau Cymraeg sy'n gwneud gwaith mor allweddol. Yr oedd yr ymwneud â chyhoeddiadau'r Llyfrgell Genedlaethol yn waith hynod o ddiddorol a difyrus, er bod rhaid cofio bob amser mai busnes yw cyhoeddi. Bonws, yng nghanol y gweinyddu, oedd cael cyfle i ymwneud â llyfrau a cheisio penderfynu a fyddai'r llyfr a'r llyfr o ddiddordeb i brynwyr. Sylweddolais na all neb fforddio i gymryd cyhoeddi'n hobi — mae'n rhy gymhleth a chostus i hynny.

H.C.Ĵ.: A ydych yn casglu llyfrau mewn maes arbennig?

B.F.R.: Nid wyf yn fy ystyried fy hun yn gasglwr llyfrau. 'Rwy'n

(Parhad ar dudalen 17)